Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
70/2017
DYDDIAD CYHOEDDI:
30/11/2017

# Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Roi Organau: Camau 13 a 14

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-78859-929-0

**Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Roi Organau:**
Camau 13 a 14

**Ian Jones**
**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**
**Llywodraeth Cymru**

**Gwnaed y gwaith casglu data gan Beaufort Research Ltd.**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Ian Jones
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Ian.Jones006@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**


| | |
|---|---|
| Rhestr o dablau a ffigurau | 3 |
| **Canfyddiadau allweddol** | **4** |
| **1. Cyflwyniad** | **7** |
| 1.1 Cefndir | 7 |
| 1.2 Gwybodaeth am yr adroddiad hwn | 7 |
| 1.3 Gwahaniaethau arwyddocaol | 8 |
| **2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o newidiadau i'r system rhoi organau** | **9** |
| 2.1 Ymwybyddiaeth ddigymell o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau | 9 |
| 2.2 Dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau | 11 |
| 2.3 Ymwybyddiaeth gymelledig o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau | 11 |
| **3. Agweddau at newidiadau i'r system rhoi organau** | **13** |
| **4. Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu** | **15** |
| **5. Ymddygiad o dan y system feddal o optio allan o roi organau** | **18** |
| 5.1 Ymddygiad ers i'r system newydd o roi organau gael ei chyflwyno | 18 |
| 5.2 Trafod y penderfyniad hwnnw ag aelod o'r teulu | 20 |
| **Atodiad A: Methodoleg** | **21** |
| **Atodiad B: Holiadur** | **25** |

**Rhestr o dablau a ffigurau**

**Tablau**


| | | |
|---|---|---|
| Tabl A.1 | Diffinio rhanbarthau | 22 |
| Tabl A.2 | Diffinio grwpiau cymdeithasol | 23 |
| Tabl A.3 | Niferoedd yr is-samplau yn ôl rhanbarth, oedran, rhywedd a grŵp cymdeithasol | 24 |


**Ffigurau**


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 2.1 | A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd i'r system rhoi organau? | 9 |
| Ffigur 2.2 | Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau yn ôl oedran | 10 |
| Ffigur 2.3 | Cyn heddiw, a ydych wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid hwn? | 11 |
| Ffigur 2.4 | Wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith yn ôl oedran | 12 |
| Ffigur 3.1 | Os yw unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, dylai hyn gael ei drin fel penderfyniad i fod yn rhoddwr, a dylid annog teuluoedd i'w dderbyn | 13 |
| Ffigur 4.1 | A ydych chi erioed wedi trafod ag aelod o'ch teulu eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl i chi farw? | 15 |
| Ffigur 4.2 | Wedi trafod ag aelod o'r teulu ddymuniadau o ran rhoi organau, yn ôl rhanbarth | 16 |
| Ffigur 4.3 | Wedi trafod ag aelod o'r teulu ddymuniadau o ran rhoi organau, yn ôl oedran | 17 |
| Ffigur 5.1 | Ers i'r system newydd o roi organau gael ei chyflwyno, pa un o'r canlynol yw'r ffordd orau o ddisgrifio'r hyn yr ydych wedi'i wneud? | 18 |
| Ffigur 5.2 | Optio i mewn neu'n hapus i gydsyniad tybiedig gael ei roi ar waith yn ôl rhanbarth | 19 |
| Ffigur 5.3 | A ydych chi erioed wedi trafod y penderfyniad hwnnw ag aelod o'r teulu? | 20 |

## Canfyddiadau allweddol

### Cefndir

- Cyflwynodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2015, system feddal o optio allan o gydsynio i roi organau a meinwe gan bobl farw yng Nghymru.

- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau sy'n galluogi i agweddau, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r system rhoi organau yng Nghymru gael eu monitro. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch rhoi organau yn Arolygon Omnibws Cymru ym mis Mawrth 2017 (cam 13) a mis Medi 2017 (cam 14), a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd.

- Lle bo hynny'n bosibl, caiff canfyddiadau eu cymharu â chamau blaenorol yr arolwg a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin 2012 (cam 1) a mis Mehefin 2016 (cam 12).

### Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddigymell o newidiadau i'r system rhoi organau

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr, heb awgrymu dim iddynt, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd i'r system rhoi organau. Yng ngham 13, roedd llai na thri chwarter yr ymatebwyr (73 y cant) wedi adrodd eu bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau, a gostyngodd hynny i 70 y cant yng ngham 14.

- Mae'r ffigurau hyn yn dangos gostyngiad mewn ymwybyddiaeth ddigymell o anterth o 82 y cant yng ngham 11 (Mawrth 2016).

- Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghamau 13 ac 14 yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol, gyda'r ymwybyddiaeth yn is ymhlith y canlynol:

    - pobl 16 i 34 oed; ac
    - ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE.

- Bu gwahaniaethau arwyddocaol cyson o ran ymwybyddiaeth ddigymell yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol ers y cam sylfaenol, gyda'r grwpiau oedran iau a'r rheiny yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE yn llai ymwybodol o'r newidiadau i'r system rhoi organau.

- Gofynnwyd cwestiwn penagored hefyd i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau, sef ‘A allwch chi ddweud wrthyf sut yr ydych yn meddwl y bydd y system yn newid?’. Yng ngham 13, dywedodd tua naw allan o'r deg o ymatebwyr (89 y cant) y byddai'n newid i system optio allan neu un o gydsyniad tybiedig, a gostyngodd hynny i 84 y cant yng ngham 14.

### Ymwybyddiaeth gymelledig o newidiadau i'r system rhoi organau

- Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd o roi organau i bob ymatebydd, a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth amdani yn flaenorol. Dywedodd wyth allan o ddeg o ymatebwyr (81 y cant yng ngham 13; 79 y cant yng ngham 79) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid.

- Mae'r ffigurau hyn yn dangos mymryn bach o duedd ar i lawr o anterth o 84 y cant yng ngham 11 (Mawrth 2016).

- Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghamau 13 ac 14 yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol, gyda'r ymwybyddiaeth gymelledig yn is ymhlith y canlynol:

    - pobl 16 i 34 oed; ac
    - ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE.

- Bu gwahaniaethau arwyddocaol cyson o ran ymwybyddiaeth ddigymell yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol ers y cam sylfaenol, gyda'r grwpiau oedran iau a'r rheiny yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid.

**Agweddau at newidiadau i'r system rhoi organau**

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr, 'Os bydd unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, i ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid trin y dewis hwnnw yn benderfyniad i fod yn rhoddwr, ac y dylid annog teuluoedd i'w dderbyn?'

- Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad hwn wedi gostwng o tua thri chwarter (74 y cant) yng ngham 13 i tua saith allan o ddeg (69 y cant) yng ngham 14. Mae cyfran yr ymatebwyr sy'n cytuno â'r datganiad hwn wedi amrywio rhwng dwy ran o dair a thri chwarter ers i'r cwestiwn hwn gael ei ofyn gyntaf yng ngham 11 (Mawrth 2016).

- Roedd gwahaniaethau arwyddocaol i'w gweld yng nghamau 13 ac 14 yn ôl grŵp cymdeithasol, gyda chyfran uwch o ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 yn cytuno â'r datganiad.

**Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu**

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr, 'A ydych chi erioed wedi trafod ag aelod o'ch teulu eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl i chi farw?'. Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr (51 y cant) yng ngham 13 eu bod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu, ac roedd hyn wedi cynyddu i 55 y cant yng ngham 14.

- Arhosodd y ffigur hwn ar oddeutu pedwar allan o ddeg o ymatebwyr rhwng cam 1 (Mehefin 2012) a cham 6 (Mehefin 2015), ond mae wedi cynyddu'n raddol ers hynny.

- Yng nghamau 13 ac 14, roedd yna wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran a grŵp cymdeithasol, gyda chyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'u teulu yn tueddu i fod yn uwch ymhlith y canlynol:

    - ymatebwyr o Ganolbarth a Gorllewin Cymru, a Chaerdydd a De-ddwyrain Cymru;
    - pobl 35 i 54 oed; ac
    - ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1.

- Gwelwyd gwahaniaethau arwyddocaol cyson yn ôl grŵp cymdeithasol ers y cam sylfaenol, gydag ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 yn fwy tebygol o fod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu.

**Ymddygiad o dan y system feddal o optio allan o roi organau**

- Yng nghamau 13 a 14, gofynnwyd i'r holl ymatebwyr beth yr oeddent wedi'i wneud ers i'r system feddal newydd o optio allan o roi organau gael ei chyflwyno:

  - roedd bron dwy ran o dair (64 y cant yng ngham 13; 65 y cant yng ngham 14) wedi **optio i mewn** neu heb wneud dim gan eu bod yn hapus i **gydsyniad tybiedig** gael ei roi ar waith;
  - roedd un o bob ugain o ymatebwyr (5 y cant yng nghamau 13 ac 14) wedi **optio allan**; ac
  - roedd tri o bob deg o ymatebwyr (30 y cant yng nghamau 13 ac 14) wedi dweud eu bod yn parhau i ystyried eu hopsiynau; nad oeddent wedi meddwl am y peth eto; neu nad oeddent yn gwybod.

- Yng nghamau 13 ac 14, roedd yna wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth a grŵp cymdeithasol, gyda chyfran yr ymatebwyr a oedd yn dweud eu bod wedi optio i mewn, neu yn hapus i gydsyniad tybiedig gael ei roi ar waith, yn tueddu i fod yn uwch ymhlith y canlynol:

  - ymatebwyr o Gaerdydd a De-ddwyrain Cymru, a Gogledd Cymru; ac
  - ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1.

**Trafod y penderfyniad hwnnw ag aelod o'r teulu**

- Gofynnwyd y cwestiwn canlynol i'r ymatebwyr hynny a oedd wedi cofrestru i optio i mewn, a oedd yn hapus i gydsyniad tybiedig gael ei roi ar waith, neu a oedd wedi optio allan, 'Ydych chi erioed wedi trafod y penderfyniad hwnnw ag aelod o'r teulu?'.

- Yng nghamau 13 ac 14, roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr (65 y cant yng ngham 13; 67 y cant yng ngham 14) wedi trafod eu penderfyniad ag aelod o'r teulu. Mae'r ffigurau hyn yn dangos mymryn o duedd i fyny o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu penderfyniad ag aelod o'r teulu ers i'r cwestiwn gael ei ofyn gyntaf yng ngham 11 (Mawrth 2016).

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

Cafodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2013. Roedd y Ddeddf, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2015, yn cyflwyno system feddal o optio allan o gydsynio i roi organau a meinwe gan bobl farw yng Nghymru.

Ymgymerodd Llywodraeth Cymru ag ymgyrch gyfathrebu cyn i'r system newydd ddod i rym, er mwyn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r hyn y mae'r newidiadau yn ei olygu, ac o'r dewisiadau y gallant eu gwneud. Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch a llywio ei datblygiad, mae'n ofynnol cael gwybodaeth reolaidd am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o gyfraith rhoi organau, a'u hagweddau at newidiadau yn y ddeddfwriaeth yng Nghymru.

Er mwyn diwallu'r anghenion ymchwil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru, a gynhelir gan Beaufort Research Ltd. Mae data wedi cael eu casglu'n rheolaidd rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mehefin 2017.

## 1.2 Gwybodaeth am yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o gamau 13 ac 14 o Arolwg Omnibws Cymru, sy'n galluogi i agweddau, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o ran y system rhoi organau yng Nghymru gael eu monitro.

Cafodd cam 13 (1,035 o ymatebwyr) ei gynnal rhwng 27 Chwefror a 12 Mawrth 2017, a cham 14 (1,008 o ymatebwyr) ei gynnal rhwng 18 Medi a 1 Hydref 2017. Cynhaliwyd rhai cyfweliadau ar gyfer y ddau gam ar ôl y dyddiadau hyn.

Mae'r arolwg wedi'i gynllunio i gynrychioli'r boblogaeth sy'n preswylio yng Nghymru ac sy'n 16 oed a throsodd.

Mae'r adroddiad hwn yn gynrychioliad ffeithiol o'r canlyniadau, ac mae'n cyflwyno canfyddiadau am agweddau'r cyhoedd at y system rhoi organau, ynghyd â'u hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth ohoni – nid yw'n archwilio cysylltiadau achosol. Lle bo hynny'n bosibl, caiff canfyddiadau eu cymharu â chamau blaenorol yr arolwg, a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mehefin 2016[1]. Mae'r dadansoddiad hefyd yn cael ei ddefnyddio i lywio sut y caiff y gwaith o gyfathrebu ei dargedu ymysg grwpiau gwahanol o'r boblogaeth.

[1] Mae'r adroddiadau ar gael yma: http://gov.wales/statistics-and-research/public-attitudes-organ-donation/?lang=cy

### 1.3 Gwahaniaethau arwyddocaol

Yn rhan o'r dadansoddiad, cynhaliwyd profion arwyddocâd ystadegol o'r data er mwyn helpu i ddehongli'r canlyniadau a llywio'r ymgyrch gyfathrebu. Pan ddisgrifir gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn wahaniaeth ‘arwyddocaol’ yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20 – h.y. mae'n debygol o adlewyrchu perthynas ddilys yn y boblogaeth[2].

Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg i'w gweld yn Atodiad A. Mae'r holiadur llawn yn atodedig yn Atodiad B.

[2] Pan gaiff data arolwg eu profi am arwyddocâd ystadegol, tybir bod y sampl a gafwyd yn cynrychioli hapsampl o'r boblogaeth berthnasol. Gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cyfraneddol, ni ellir, mewn gwirionedd, sefydlu arwyddocâd ystadegol dilys. Felly, mae gwahaniaethau ‘arwyddocaol’ yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar y lefel hyder o 95 y cant.


## 2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o newidiadau i'r system rhoi organau

### 2.1 Ymwybyddiaeth ddigymell o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr, heb awgrymu dim iddynt, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd i'r system rhoi organau.

Yng ngham 13, roedd llai na thri chwarter yr ymatebwyr (73 y cant) wedi adrodd eu bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau, a gostyngodd hyn i 70 y cant yng ngham 14. Mae'r ffigurau hyn yn dangos gostyngiad mewn ymwybyddiaeth o anterth o 82 y cant yng ngham 11 (Ffigur 2.1).

**Ffigur 2.1: A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd i'r system rhoi organau?** (a)





Man cychwyn: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,002 (C5 Medi 2014); 1,003 (C6 Tachwedd 2014); 1,022 (C7 Mawrth 2015); 1,018 (C8 Mehefin 2015); 1,008 (C9 Medi 2015); 1,000 (C10 Tachwedd 2015); 1,007 (C11 Mawrth 2016); 1,011 (C12 Mehefin 2016); 1,035 (C13, Mawrth 2017); 1,008 (C14 Medi 2017).
(a) Yng nghamau 1 a 2, gofynnwyd i'r ymatebwyr, 'A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system gyfredol o roi organau?'. Yng nghamau 3 i 10, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system gyfredol o roi organau?'.

Yng ngham 13, roedd yna wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth o ran ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau, yn amrywio o 68 y cant yng Ngogledd Cymru a Bae Abertawe, i 80 y cant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Yng ngham 14, nid oedd yna unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth.

Yng nghamau 13 and 14, roedd yna wahaniaethau arwyddocaol o ran ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau yn ôl oedran, gyda llai o bobl 16-34 oed yn ymwybodol o'r newid i'r system na grwpiau oedran hŷn (Ffigur 2.2).

Bu gwahaniaethau arwyddocaol cyson o ran ymwybyddiaeth ddigymell yn ôl oedran ers y cam cychwynnol, gyda'r grwpiau oedran iau yn llai ymwybodol o'r newidiadau yn y gyfraith.

**Ffigur 2.2: Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau yn ôl oedran**




Man cychwyn: 1,035 (C13, Mawrth 2017); 1,008 (C14 Medi 2017).

Roedd yna hefyd wahaniaeth arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol yng nghamau 13 ac 14. Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 yn ymwybodol o'r newidiadau (79 y cant yng ngham 13; 75 y cant yng ngham 14) o gymharu ag ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE (65 y cant yng nghamau 13 ac 14).

Bu gwahaniaethau arwyddocaol cyson o ran ymwybyddiaeth ddigymell yn ôl grŵp cymdeithasol ers y cam cychwynnol, gyda'r rheiny yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE yn llai ymwybodol o'r newid yn y gyfraith.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhywedd yng ngham 13. Fodd bynnag, yng ngham 14 roedd cyfran sylweddol uwch o fenywod (74 y cant) nag o ddynion (66 y cant) yn dweud eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau i'r system.

## 2.2 Dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau

Hefyd, gofynnwyd cwestiwn penagored i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau, sef ‘A allwch chi ddweud wrthyf sut yr ydych yn meddwl y bydd y system yn newid?’.


Yng ngham 13, dywedodd tua naw allan o'r deg o ymatebwyr (89 y cant) y byddai'n newid i system optio allan neu un o gydsyniad tybiedig, a gostyngodd hynny i 84 y cant yng ngham 14.

## 2.3 Ymwybyddiaeth gymelledig o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau

Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd o roi organau i bob ymatebydd, a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth amdani yn flaenorol.

Fel y mae Ffigur 2.3 yn ei ddangos, roedd tua wyth o bob deg o ymatebwyr (81 y cant yng ngham 13; 79 y cant yng ngham 79) wedi adrodd eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid. Mae'r ffigurau hyn yn dangos mymryn bach o duedd ar i lawr o anterth o 84 y cant yng ngham 11.

**Ffigur 2.3: Cyn heddiw, a ydych wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid hwn?** *(Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd i'r ymatebwyr)*





Man cychwyn: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,002 (C5 Medi 2014); 1,003 (C6 Tachwedd 2014); 1,022 (C7 Mawrth 2015); 1,018 (C8 Mehefin 2015); 1,008 (C9 Medi 2015); 1,000 (C10 Tachwedd 2015); 1,007 (C11 Mawrth 2016); 1,011 (C12 Mehefin 2016); 1,035 (C13, Mawrth 2017); 1,008 (C14 Medi 2017).

Yng nghamau 13 ac 14, nid oedd yna unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth o ran y gyfran o ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld rhywbeth am y newid.

Yng nghamau 13 ac 14, roedd yna wahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, gyda llai o bobl 16-34 oed yn dweud eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith, o gymharu â grwpiau oedran hŷn (Ffigur 2.4).

Bu gwahaniaethau arwyddocaol cyson o ran ymwybyddiaeth gymelledig yn ôl oedran ers y cam cychwynnol, gyda'r grwpiau oedran iau yn llai tebygol o fod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith.

**Ffigur 2.4: Wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith yn ôl oedran**




Cam cychwynnol: 1,035 (C13, Mawrth 2017); 1,008 (C14 Medi 2017).

Roedd yna hefyd wahaniaethau arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol yng nghamau 13 a 14. Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 (88 y cant yng ngham 13; 83 y cant yng ngham 14) wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith o gymharu ag ymatebwyr o grŵp cymdeithasol C2DE (73 y cant yng ngham 13; 75 y cant yng ngham 14).

Bu gwahaniaethau arwyddocaol cyson o ran ymwybyddiaeth gymelledig yn ôl oedran ers y cam cychwynnol, gyda'r rhai yn grwpiau cymdeithasol C2DE yn llai tebygol o fod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhywedd yng ngham 13. Fodd bynnag, yng ngham 14 roedd cyfran sylweddol uwch o fenywod (74 y cant) nag o ddynion (66 y cant) yn dweud eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith.

## 3. Agweddau at newidiadau i'r system rhoi organau


Gofynnwyd i'r ymatebwyr, 'Os bydd unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, i ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid trin y dewis hwnnw yn benderfyniad i fod yn rhoddwr, ac y dylid annog teuluoedd i'w dderbyn?'

Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad hwn wedi gostwng o tua thri chwarter (74 y cant) yng ngham 13 i tua saith allan o ddeg (69 y cant) yng ngham 14.

Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r datganiad hwn wedi cynyddu o 12 y cant yng ngham 13 i 17 y cant yng ngham 14. Nid oedd gweddill yr ymatebwyr (14 y cant yng ngham 13; 15 y cant yng ngham 14) yn cytuno nac yn anghytuno, neu nid oeddent yn gwybod.

Fel y mae Ffigur 3.1 yn ei ddangos, mae cyfran yr ymatebwyr sy'n cytuno â'r datganiad hwn wedi amrywio rhwng dwy ran o dair a thri chwarter ers i'r cwestiwn hwn gael ei ofyn gyntaf yng ngham 11.

**Ffigur 3.1: Os bydd unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, dylid trin y dewis hwnnw yn benderfyniad i fod yn rhoddwr, a dylid annog teuluoedd i'w dderbyn**




Man cychwyn: 1,007 (C11 Mawrth 2016); 1,011 (C12 Mehefin 2016); 1,035 (C13, Mawrth 2017); 1,008 (C14 Medi 2017).

(a) Mae 'Cytuno' yn cynnwys ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn 'Cytuno'n gryf ' neu'n 'Cytuno'. Mae 'Anghytuno' yn cynnwys ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn 'Anghytuno'n gryf' neu'n 'Anghytuno'.

Yng ngham 13, nid oedd yna unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad hwn. Fodd bynnag, roedd yna wahaniaethau arwyddocaol yng ngham 14, gyda'r gyfran a oedd yn cytuno â'r datganiad yn amrywio o 59 y cant yn y Cymoedd i 75 y cant yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru.

Yng ngham 13, nid oedd yna unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad hwn. Fodd bynnag, roedd yna wahaniaethau arwyddocaol yng ngham 14, gyda'r gyfran a oedd yn cytuno â'r datganiad yn cynyddu yn ôl oedran (63 y cant o bobl 16-34 oed; 68 y cant o bobl 35-54 oed; a 73 y cant o bobl 55+ oed).

Roedd yna wahaniaethau arwyddocaol i'w gweld yn ôl grŵp cymdeithasol yng nghamau 13 ac 14, gyda chyfran uwch o ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 yn cytuno â'r datganiad (79 y cant yng ngham 13; 74 y cant yng ngham 14) o gymharu ag ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE (68 y cant yng ngham 13; 63 y cant yng ngham 14).

Yng ngham 13, nid oedd yna unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhywedd o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad hwn. Fodd bynnag, roedd yna wahaniaethau arwyddocaol yng ngham 14, gyda chyfran uwch o fenywod (72 y cant) na dynion (65 y cant) yn cytuno â'r datganiad hwn.


## 4. Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ‘A ydych chi erioed wedi trafod ag aelod o'ch teulu eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl i chi farw?’.

Fel y mae Ffigur 4.1 yn ei ddangos, dywedodd tua hanner yr ymatebwyr yng ngham 13 (51 y cant) eu bod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o’r teulu, ac roedd hynny wedi cynyddu i 55 y cant yng ngham 14.

Arhosodd y ffigur hwn ar oddeutu pedwar allan o ddeg o ymatebwyr rhwng cam 1 (Mehefin 2012) a cham 6 (Mehefin 2015), ond mae wedi cynyddu'n raddol ers hynny.

**Ffigur 4.1: A ydych chi erioed wedi trafod ag aelod o'ch teulu eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl i chi farw?**





Man cychwyn: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,002 (C5 Medi 2014); 1,003 (C6 Tachwedd 2014); 1,022 (C7 Mawrth 2015); 1,018 (C8 Mehefin 2015); 1,008 (C9 Medi 2015); 1,000 (C10 Tachwedd 2015); 1,007 (C11 Mawrth 2016); 1,011 (C12 Mehefin 2016); 1,035 (C13, Mawrth 2017); 1,008 (C14 Medi 2017).

Yng nghamau 13 ac 14, roedd yna wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'u teulu. Yng ngham 13, roedd hyn wedi amrywio o 36 y cant yn y Cymoedd i 61 y cant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Yng ngham 14, roedd y ffigur wedi amrywio o 44 y cant yn y Cymoedd i 59 y cant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru, a Chaerdydd a De-ddwyrain Cymru.

Yng nghamau 13 ac 14, roedd yna wahaniaethau arwyddocaol ym Mae Abertawe a'r Cymoedd o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'u teulu (Ffigur 4.2).

**Figure 4.2: Wedi trafod ag aelod o'r teulu eu dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl marw, yn ôl rhanbarth**





Cam cychwynnol: 1,035 (C13, Mawrth 2017); 1,008 (C14 Medi 2017).

Yng nghamau 13 ac 14, roedd yna hefyd wahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, gyda chyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'u teulu uchaf ymysg pobl 35-54 oed yn y ddau gam.

Rhwng camau 13 ac 14, roedd yna gynnydd sylweddol o ran cyfran y bobl 16-34 oed a oedd wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu, gyda chynnydd o 40 y cant yng ngham 13 i 52 y cant yng ngham 14 (Ffigur 4.3).

**Ffigur 4.3: Wedi trafod ag aelod o'r teulu eu dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl marw, yn ôl oedran**




Cam cychwynnol: 1,035 (C13, Mawrth 2017); 1,008 (C14 Medi 2017).

Yng nghamau 13 ac 14, roedd yna hefyd wahaniaethau arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol, gyda chyfran uwch o ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 (57 y cant yng ngham 13; 60 y cant yng ngham 14) na grwpiau cymdeithasol C2DE (43 y cant yng ngham 13; 48 y cant yng ngham 14) wedi trafod ag aelod o'u teulu eu dymuniadau o ran rhoi organau.

Gwelwyd gwahaniaethau arwyddocaol cyson yn ôl grŵp cymdeithasol ers y cam sylfaenol, gydag ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 yn fwy tebygol o fod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu.

Nid oedd yna unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhywedd yng ngham 13, ond roeddent i'w cael yng ngham 14, gyda 60 y cant o fenywod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu, o gymharu â 49 o ddynion.

## 5. Ymddygiad o dan y system feddal o optio allan o roi organau

### 5.1 Ymddygiad ers cyflwyno'r system newydd o roi organau


Gofynnwyd i'r ymatebwyr, 'Ers i'r system o roi organau gael ei chyflwyno ar 1 Rhagfyr 2015, pa un o'r canlynol yw'r ffordd orau o ddisgrifio'r hyn yr ydych wedi'i wneud?'

Yng nghamau 13 ac 14, roedd bron dwy ran o dair o'r ymatebwyr (64 y cant yng ngham 13; 65 y cant yng ngham 14) wedi **optio i mewn** neu heb wneud dim gan eu bod yn hapus i **gydsyniad tybiedig** gael ei roi ar waith, tra bo un o bob ugain o ymatebwyr (5 y cant yng nghamau 13 ac 14) wedi **optio allan**.

Dywedodd tri o bob deg o ymatebwyr (30 y cant yng nghamau 13 ac 14) nad oeddent wedi gwneud dim, ond eu bod yn parhau i ystyried eu hopsiynau; nad oeddent wedi meddwl am y peth eto; neu nad oeddent yn gwybod.

Fel y mae Ffigur 5.1 yn ei ddangos, mae cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi optio i mewn neu a oedd yn hapus i gydsyniad tybiedig gael ei roi ar waith, wedi gostwng rhwng misoedd Mawrth a Mehefin 2016 (ac roedd y gyfran nad oeddent wedi gwneud penderfyniad wedi cynyddu), gyda fawr ddim newid oddi ar hynny. Mae cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi cofrestru i optio allan wedi aros oddeutu un o bob ugain ym mhob un o'r pedwar cam ers i'r Ddeddf ddod i rym.

**Ffigur 5.1: Ers i'r system newydd o roi organau gael ei chyflwyno, pa un o'r canlynol yw'r ffordd orau o ddisgrifio'r hyn yr ydych wedi'i wneud? [(a)]**





Cam cychwynnol: 1,007 (C11 Mawrth 2016); 1,011 (C12 Mehefin 2016); 1,035 (C13, Mawrth 2017); 1,008 (C14 Medi 2017).

(a) Roedd 'Optio i mewn neu gydsyniad tybiedig' yn cynnwys ymatebwyr a oedd wedi 'cofrestru i optio i mewn' neu a oedd 'heb wneud dim – gan eu bod yn hapus i gydsyniad tybiedig gael ei roi ar waith'. Roedd 'Dim penderfyniad' yn cynnwys ymatebwyr a oedd 'heb wneud dim – ond a oedd yn parhau i ystyried yr opsiynau'; 'heb wneud dim – heb feddwl am y peth eto' neu 'ddim yn gwybod'. Roedd 'Optio allan' yn cynnwys ymatebwyr a oedd wedi 'cofrestru i optio allan'.

Yng nghamau 13 ac 14, roedd yna wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd yn dweud eu bod wedi optio i mewn neu heb wneud dim gan eu bod yn hapus i gydsyniad tybiedig gael ei roi ar waith. Yng ngham 13, roedd y ffigur hwn wedi amrywio o 53 y cant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i 74 y cant yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru. Yng ngham 14, roedd y ffigur wedi amrywio o 56 y cant ym Mae Abertawe i 71 y cant yng Ngogledd Cymru, a Chaerdydd a De-ddwyrain Cymru.

Rhwng camau 13 ac 14, roedd yna gynnydd sylweddol o ran cyfran yr ymatebwyr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (ac i raddau llai yn y Cymoedd) a oedd wedi optio i mewn neu a oedd yn hapus i gydsyniad tybiedig gael ei roi ar waith, a gostyngiad sylweddol ym Mae Abertawe (Ffigur 5.2).

**Figure 5.2: Optio i mewn neu'n hapus i gydsyniad tybiedig gael ei roi ar waith, yn ôl rhanbarth**




Cam cychwynnol: 1,035 (C13, Mawrth 2017); 1,008 (C14 Medi 2017).

Nid oedd yna unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd yn dweud eu bod wedi optio i mewn neu heb wneud dim gan eu bod yn hapus i gydsyniad tybiedig gael ei roi ar waith, a hynny yng nghamau 13 ac 14, fel ei gilydd.

Roedd yna wahaniaethau arwyddocaol i'w gweld yng nghamau 13 ac 14 yn ôl grŵp cymdeithasol, gyda chyfran uwch o ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 (70 y cant yng ngham 13; 72 y cant yng ngham 14) na grwpiau cymdeithasol C2DE (58 y cant yng nghamau 13 a 14) yn dweud eu bod wedi optio i mewn neu'n hapus i gydsyniad tybiedig gael ei roi ar waith.

Nid oedd yna unrhyw wahaniaethau sylweddol yn ôl rhywedd yng ngham 13. Fodd bynnag, yng ngham 14 roedd cyfran sylweddol uwch o fenywod (69 y cant) nag o ddynion (62 y cant) wedi dweud eu bod wedi optio i mewn neu'n hapus i gydsyniad tybiedig gael ei roi ar waith.


### 5.2 Trafod y penderfyniad hwnnw ag aelod o'r teulu

Gofynnwyd y cwestiwn canlynol i'r ymatebwyr hynny a oedd wedi cofrestru i optio i mewn, a oedd yn hapus i gydsyniad tybiedig gael ei roi ar waith, neu a oedd wedi optio allan, 'Ydych chi erioed wedi trafod y penderfyniad hwnnw ag aelod o'r teulu?'.

Yng nghamau 13 ac 14, roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr (65 y cant yng ngham 13; 67 y cant yng ngham 14) wedi trafod eu penderfyniad ag aelod o'r teulu.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos mymryn o duedd i fyny o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu penderfyniad ag aelod o'r teulu ers i'r cwestiwn gael ei ofyn gyntaf yng ngham 11 (Ffigur 5.3).

**Ffigur 5.3: A ydych chi erioed wedi trafod y penderfyniad hwnnw ag aelod o'r teulu?**




Man cychwyn (ymatebwyr a oedd wedi optio i mewn, a oedd yn hapus i gydsyniad tybiedig gael ei roi ar waith, neu a oedd wedi optio allan – amhwysol): 757 (C11 Mawrth 2016); 685 (C12 Mehefin 2016); 725 (C13, Mawrth 2017); 715 (C14 Medi 2017).

Yng ngham 13, roedd yna wahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu penderfyniad ag aelod o'r teulu, ond nid oedd yna unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth neu rywedd:

- Roedd tua chwech allan o ddeg o bobl 16-34 oed (59 y cant) wedi trafod eu penderfyniad, o gymharu â bron tri chwarter (73 y cant) o bobl 35-54 oed a 63 y cant o bobl 55+ oed.
- Roedd tua saith allan o ddeg (71 y cant) o ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 wedi trafod eu penderfyniad, o gymharu â llai na chwech allan o ddeg (58 y cant) o ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE.

Yng ngham 14, roedd yna wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, grŵp cymdeithasol neu rywedd o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu penderfyniad ag aelod o'r teulu.

## Atodiad A: Methodoleg

Cynlluniwyd Arolwg Omnibws Cymru i gynrychioli'r boblogaeth sy'n preswylio yng Nghymru, ac sy'n 16 oed a throsodd. Yr uned samplu yw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Is, a dewisir 69 o bwyntiau cyfweld ledled Cymru y mae eu tebygolrwydd yn gymesur â'r boblogaeth breswyl, ar ôl cael eu haenu yn ôl awdurdod unedol a grŵp cymdeithasol.

Ym mhob pwynt samplu, defnyddir rheolaethau cwota demograffig oedran a dosbarth cymdeithasol o fewn rhyw i ddewis yr ymatebwyr. Gosodir cwotâu i adlewyrchu proffil demograffig unigol pob pwynt a ddewisir.

Mae'r data wedi'u pwysoli yn ôl grŵp oedran o fewn rhywedd yng ngrwpiau'r awdurdod unedol, er mwyn rhoi i bob cell ei mynychder cywir yng nghyfanswm Cymru, sy'n deillio o ganlyniadau Cyfrifiad 2011.

Dewisir sampl ffres o leoliadau cyfweld ac unigolion ar gyfer pob arolwg, ac ni chyfwelir â mwy nag un unigolyn o bob cartref. Cynhelir y cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr, a hynny gan ddefnyddio technoleg CAPI (Cyfweld Personol trwy Gymorth Cyfrifiadur).

Ar gyfer cam 13, gwnaethpwyd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg rhwng 27 Chwefror a 12 Mawrth 2017, gydag ychydig o gyfweliadau yn cael eu cynnal ar ôl y dyddiad hwn; a chynhaliwyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,035 o gyfweliadau wyneb yn wyneb. Ar gyfer cam 14, gwnaethpwyd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg rhwng 18 Medi a 1 Hydref 2017, gydag ychydig o gyfweliadau yn cael eu cynnal ar ôl y dyddiad hwn; a chynhaliwyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,008 o gyfweliadau wyneb yn wyneb.

### Samplu cwota cyfraneddol

Pan gaiff data arolwg eu profi ar gyfer arwyddocâd ystadegol, tybir bod y sampl a gafwyd yn cynrychioli hapsampl o'r boblogaeth berthnasol. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cyfraneddol (nid hapsamplu), ni ellir, mewn gwirionedd, ganfod arwyddocâd ystadegol dilys[3]. Felly, pan ddisgrifir gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp yn wahaniaeth ‘arwyddocaol’ yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol lled-ystadegol ar y lefel hyder o 95 y cant. Mae hyn yn golygu y byddai'r tebygolrwydd o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20 pe byddai'r arolwg wedi defnyddio hapsampl.

### Dadansoddiad chi-sgwâr

Defnyddiwyd y prawf chi-sgwâr yn y dadansoddiad i bennu a yw perthynas a welir rhwng dau newidyn penodol yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad dilys yn y boblogaeth (h.y. cyfanswm poblogaeth yr oedolion sy'n preswylio yng Nghymru ac sydd yn 16 oed a throsodd).

---

[3] Gschwend, T (2005). Analyzing Quota Sample Data and the Peer-review Process. *French Politics*, 2005, 3, (88–91).

**Diffinio rhanbarthau**

Mae Tabl A.1 isod yn dangos pa awdurdodau unedol yng Nghymru sy'n ffurfio'r rhanbarthau a ddefnyddir yn y dadansoddiad.

**Tabl A.1: Diffinio rhanbarthau**

| Rhanbarth | Awdurdodau unedol |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Ynys Môn<br>Gwynedd<br>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Sir y Fflint<br>Wrecsam |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Ceredigion<br>Powys<br>Sir Benfro<br>Sir Gaerfyrddin |
| Bae Abertawe | Abertawe<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cymoedd | Rhondda Cynon Taf<br>Merthyr Tudful<br>Caerffili<br>Blaenau Gwent |
| Caerdydd a De-ddwyrain Cymru | Bro Morgannwg<br>Caerdydd<br>Casnewydd<br>Torfaen<br>Sir Fynwy |

**Diffiniad o'r grwpiau cymdeithasol**

Mae Tabl A.2 isod yn rhoi diffiniad o ddosbarthiadau'r grwpiau cymdeithasol a ddefnyddir yn y dadansoddiad.

**Tabl A.2: Diffiniad o'r grwpiau cymdeithasol**

| Grŵp cymdeithasol | Diffiniad |
|---|---|
| **ABC1** | |
| A | Rheolaethol, gweinyddol neu broffesiynol uwch |
| B | Rheolaethol, gweinyddol neu broffesiynol canol |
| C1 | Goruchwyliol, clerigol a rheolaethol iau, gweinyddol neu broffesiynol |
| **C2DE** | |
| C2 | Gweithwyr llaw crefftus |
| D | Gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft |
| E | Pensiynwyr gwladol, gweithwyr achlysurol neu weithwyr ar y radd isaf, y di-waith sy'n cael budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig |

**Meintiau'r is-samplau**

Mae Tabl A.3 isod yn dangos nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob is-sampl a ddefnyddir yn y dadansoddiad o ddata mis Tachwedd 2015, mis Mawrth 2016 a mis Mehefin 2016. Rhoddir nifer yr ymatebwyr ar gyfer y samplau pwysol a'r samplau amhwysol.

**Tabl A.3: Niferoedd yr is-samplau yn ôl rhanbarth, oedran, rhywedd a grŵp cymdeithasol**

| | Mawrth 2017 | | Medi 2017 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Sampl amhwysol** | **Sampl bwysol** | **Sampl amhwysol** | **Sampl bwysol** |
| **Rhanbarth** | | | | |
| Gogledd Cymru | 235 | 233 | 221 | 227 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 170 | 176 | 181 | 171 |
| Bae Abertawe | 165 | 176 | 171 | 171 |
| Y Cymoedd | 195 | 181 | 165 | 176 |
| Caerdydd a De-ddwyrain Cymru | 270 | 269 | 270 | 262 |
| **Oedran** | | | | |
| 16 – 34 oed | 263 | 303 | 290 | 295 |
| 35-54 oed | 287 | 338 | 298 | 329 |
| 55+ oed | 485 | 394 | 419 | 383 |
| **Rhywedd** | | | | |
| Dynion | 435 | 503 | 455 | 489 |
| Merched | 600 | 532 | 553 | 519 |
| **Grŵp cymdeithasol** | | | | |
| ABC1 | 549 | 554 | 527 | 522 |
| C2DE | 485 | 479 | 481 | 486 |

## Atodiad B: Questionnaires (Saesneg yn unig)

### Organ Donation Omnibus Questions

### Waves 13 and 14

**March and September 2017**

Q1. (UNPROMPTED) Are you aware of any changes that have taken place to the organ donation system?

- Yes
- No
- Don't know

ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2

Q2. Can you tell me how you think the system has changed?

OPEN ENDED

**Please take a look at this card**

SHOWCARD
The Welsh Government introduced a new organ donation system on 1 December 2015. People can now formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The new system allows family members to object to donation on the basis that they know the deceased person would not have wished to consent. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor continues.

Q3. (PROMPTED) Before today, have you seen or heard anything about this change?

- Yes
- No
- Don't know

Q4. To what extent do you agree or disagree that, if an individual chooses not to register a decision, this should be treated as a decision to be a donor which families should be encouraged to accept?

- Strongly agree
- Agree
- Neither agree nor disagree
- Disagree
- Strongly disagree
- Don't know

Q5. Have you ever discussed your wishes regarding organ donation after your death with a family member?

- Yes
- No

Q6. Since the new system of organ donation was introduced on the 1 December 2015, which of the following best describes what you have done?

01: Registered to opt in
02: Registered to opt out
03: Nothing – as happy for presumed consent to apply
04: Nothing – but still considering my options
05: Nothing – haven't thought about it yet'

ASK Q7 IF ANSWER CODES 1 OR 2 OR 3 AT Q6

Q7. Have you ever discussed that decision with a family member?

- Yes
- No